

47. CYFRIF RHIF 54321
(Dameg y gwas anfaddeugar)

Dychmygwch was yn aros y tu allan i ystafell yr orsedd, yn crynu yn ei sandalau. Mae wedi bod yn ffôl. Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi gwario llawer mwy o arian nag yr enillai ac arno filoedd o bunnau i'r brenin. Unrhyw funud bydd drws yr ystafell yn agor a bydd disgwyl iddo dalu'r arian yn ôl. Ond ni all dalu'r ddyled. Does ganddo ddim eiddo. Nac arian wedi'i gynilo. Ond **mae** ganddo wraig a phlant. A hwy yw'r rhai fydd yn dioddef am ei ffolineb.

Felly, fe eistedda yno gan deimlo fel troseddwr sydd ar fin croesi Rhaeadr Niagara ar raff dynn mewn corwynt. 'Dwi wedi gwneud y fath lanast o bethau,' ochneidia. 'Bûm mor ffôl. Petawn i ond yn cael cyfle arall . . .'

Yn sydyn fe agora'r drws. Caiff ei hebrwng gan filwyr arfog i'r ystafell. Chwith . . . dde . . . chwith . . . dde. Dwsin o gamau ac mae'n sefyll gerbron y brenin.

'Cyfrif rhif 54321,' cyhoedda'r milwyr.

'54321.' Edrychodd y brenin ar ei sgrôl, ac yna edrych i fyny gan wgu.

'Rwyt ti yn y coch,' meddai'n llym. 'A dweud y gwir rwyt ti gymaint yn y coch nes rwyt ti bron iawn yn y piws! Beth sydd

gennyt i'w ddweud i d'amddiffyn dy hun?'

Ni chododd y gwas ei ben. 'Dim,' mwmiodd.

'Ac rwyt ti yma i dalu'r ddyled hon yn ôl?'

'Plîs . . . os medra i gael rhyw ychydig mwy o flynyddoedd . . .y . . . y . . . misoedd dwi'n feddwl.'

'Dwi eisiau setlo fy nghyfrifon *nawr*, nid rywbryd tua diwedd y mileniwm,' datganodd y brenin. 'Dim ond un ateb sydd. Bydd rhaid i mi dy werthu di a dy wraig a dy blant fel caethweision.'

Caethweision! Aeth wyneb y gwas yn wyn fel y galchen. Syrthiodd ar ei liniau.

'Byddwch yn amyneddgar â mi, eich mawrhydi,' erfyniodd, 'ac fe dalaf y cyfan yn ôl i chi.'

Dim gobaith mul! Rowliodd y milwyr eu llygaid a dechreuasant glosio at y gwas gan ddisgwyl gorchymyn i fynd ag ef i ffwrdd.

Ond mae golwg feddylgar ar wyneb y brenin.

Rhydd ei law ar ysgwydd y gwas. 'Rwyt ti wedi gwneud llanast ofnadwy o bethau,' meddai. 'Fedri di byth dalu'r arian yna'n ôl i mi. Dim heddiw. Dim yfory. Dim mewn miliwn o flynyddoedd.'

'Mae hynny'n wir,' meddai'r gwas gan deimlo ychydig yn fwy gobeithiol wrth weld llygedyn o gydymdeimlad yn llygaid ei feistr.

'Felly,' meddai'r brenin gan godi ei ysgrifbin a thynnu llinell trwy gyfrif rhif 54321. 'Dwi wedi dileu dy ddyled.'

'Beth . . . dyna ni . . . dwi'n rhydd i fynd?'

Amneidiodd y brenin ei ben. Ysgydwodd y milwr ei ysgwyddau. A bu bron i'r gwas wneud tin dros ben wrth ymadael ag ystafell yr orsedd.

Funud yn ddiweddarach mae'n brasgamu'n dalog i lawr y stryd dan fwmian canu. Dim rhagor o ddyled! Bendigedig! Mae ar fin galw yn y dafarn agosaf am bryd o fwyd i ddathlu. Ond yn sydyn mae'n cofio. All o ddim fforddio pryd o fwyd. Efallai nad oes ganddo ddim dyledion mwyach, ond does ganddo ddim arian 'chwaith. A fydd yr un tafarnwr call yn caniatáu iddo fwyta nawr a thalu rywbryd eto.

Ond dyma strôc o lwc. Dacw Genius yr ochr draw i'r stryd.

'Hei, Genius. Fan hyn!' bloeddia.

Un o gydweithwyr ein gwas yw Genius. Nid Genius yw ei wir enw, wrth gwrs. Llysenw ydyw. Y gwir amdani yw nad yw Genius

yn un doeth iawn wrth ddelio ag arian. Pan fydd yn derbyn ei gyflog mae'n gwario'r cyfan mewn deuddydd ac yn treulio gweddill yr wythnos yn dlawd fel llygoden eglwys.

Ac mae ein gwas newydd gofio rhywbeth. Un tro, pan oedd Genius heb yr un geiniog, benthycodd arian iddo gael pryd o fwyd.

Yn sydyn, mae'n gafael yn ei gydweithiwr gerfydd ei wddf.

'Tala'n ôl dy ddyled i mi,' ysgyrnyga.

Mae ennyd o ymbalfalu gorffwyll wrth i Genius ymestyn am ei gwdyn arian o dan ei glogyn.

Grêt! Mae wedi deall y neges. Mae ein gwas yn camu'n ôl a'i freichiau ymhlyg ac yn aros.

Ond beth yw hyn? Mae Genius yn craffu i mewn i'r cwdyn. Mae'n ei ysgwyd. Mae'n ei droi tu chwith allan a'i ysgwyd unwaith eto rhag ofn ei fod yn camgymryd. 'M–m–mae'n ddrwg gen i!' Syrthia Genius ar ei liniau. 'Fe wyddost nad oes gen i byth arian erbyn y trydydd diwrnod. Ond fe dalaf yn ôl i ti. Wir i ti, rwy'n addo. Rho tan ddiwedd yr wythnos i mi.'

'Wel am ffŵl!' meddylia'r gwas wrth wylio Genius druan ar ei liniau'n ymbil ynghanol y llwch. 'Dim ffiars o beryg y caiff *hwn* ail gyfle ganddo ef.'

Ac felly, heb gymryd unrhyw amser i feddwl, bwriodd Genius druan i'r carchar.

Diwedd y stori?

Na, ond bron iawn.

Roedd rhai o'r gweision eraill yn drist iawn pan glywsant am dynged Genius a dyma rai ohonynt yn mynd at y brenin i ddweud eu cwyn.

Cyn bo hir mae ein gwas yn ei ganfod ei hun yn ôl gerbron yr orsedd. Y tro hwn nid yw'r brenin yn dangos unrhyw gydymdeimlad.

'Y crinc!' mae'n taranu. 'Fe faddeuais i'r cyfan i ti, dim ond am i ti ofyn i mi. Pam na fuost ti'n drugarog â'th gydweithiwr fel y bûm i'n drugarog â thi?'

Wel, does dim ateb i hyn, nag oes? Mae ein gwas wedi ymddwyn yn warthus. Mae'r brenin yn ymestyn am ei sgrôl ac yn rhwbio ymaith y llinell trwy gyfrif 54321.

'Taflwch y cnaf i'r carchar a chadwch ef yno,' gorchmynna, 'nes

i'r geiniog olaf gael ei thalu'n ôl!'

HYD: 5 munud

NEGES: Defnyddiodd Iesu y ddameg hon i ddangos na fedrwn ddisgwyl i Dduw faddau i ni os nad ydym yn fodlon maddau i eraill.

DARLLEN: Seiliwyd y stori ar Mathew 18: 21–35.

ADRODD Y STORI I GRŴP:
Mae digon yn digwydd yn y stori a gall weithio'n dda fel meim i bum cymeriad: y brenin, y gwas, dau filwr a Genius.